Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

# Taflen canllawiau tystion



## CONTENTS


Ynglŷn â’r daflen hon 3

Cyflwyniad 4

Trefnu’ch presenoldeb 4

Cyn y gwrandawiad 5

Eich cefnogi yn y gwrandawiad 6

A allaf wrthod mynd i'r gwrandawiad? 6

Paratoi i fynychu'r gwrandawiad 7

Yn ystod y gwrandawiad 8

Ar ôl y gwrandawiad 11

## YNGLŶN Â'R DAFLEN HON

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC), yw'r rheoleiddiwr statudol ar gyfer y proffesiwn osteopathig yn y Deyrnas Unedig.

Mae cynnal diogelwch cleifion a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathig yn golygu bod yn rhaid i ni ymchwilio ac ystyried cwynion am ymddygiad, cymhwysedd neu iechyd osteopathiaid. I wneud hyn, rydyn ni'n dibynnu ar gleifion ac aelodau'r cyhoedd i ddweud wrthym ni os oes ganddyn nhw bryderon am osteopath cofrestredig. Mae rôl tystion yn hanfodol i'r broses hon.

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod tystion yn cael eu trin â pharch a sensitifrwydd. Nod y canllawiau hyn yw helpu tystion i roi eu tystiolaeth orau mewn gwrandawiad.

Mae'r canllawiau hyn yn rhan o gasgliad o gefnogaeth rydyn ni wedi'i rhoi ar waith, cyn, yn ystod ac ar ôl i dyst roi tystiolaeth, i sicrhau eu bod yn cael eu helpu'n iawn ac yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Fodd bynnag, dim ond arweiniad cyffredinol y gall y daflen hon ei roi ac ni all ymdrin â phob casgliad posibl o amgylchiadau a allai godi. Rydyn ni'n cydnabod bod pob tyst yn unigryw, a byddwn yn ystyried eu hamgylchiadau a'u gofynion.



## CYFLWYNIAD

Mae'n debygol y byddwch chi wedi darparu datganiad tyst i ni mewn perthynas â chwyn a gawsom am osteopath. Ein cyfrifoldeb ni yw profi achos yn erbyn yr osteopath. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i ni ymchwilio ac ystyried cwynion am osteopathiaid yn briodol. Gallai hyn gynnwys datganiadau tyst ysgrifenedig, adroddiadau, nodiadau cleifion, e-byst a gwybodaeth berthnasol arall. Efallai y bydd angen i chi fynychu gwrandawiad a rhoi tystiolaeth gerbron naill ai Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol neu Bwyllgor Iechyd.

## TREFNU'CH PRESENOLDEB

Pan fydd y penderfyniad wedi i wneud bod yn rhaid i chi roi tystiolaeth, bydd eich gweithiwr achos yn cysylltu  chi ynglŷn  r dyddiadau pryd y gallwch chi fynychu r gwrandawiad. Byddwn yn ceisio rhestru gwrandawiadau ar ddyddiadau sydd fwyaf cyfleus i chi. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosibl bob amser am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys, er enghraifft, argaeledd tystion eraill. Bydd eich gweithiwr achos yn rhoi gwybod i chi beth yw dyddiad y gwrandawiad cyn gynted ag y bydd wedi i gadarnhau. Yna byddwn yn gwneud trefniadau teithio addas ac yn archebu llety dros nos mewn gwesty a thocynnau teithio i chi os yw hynny n briodol.

Cyn y gwrandawiad, rhowch wybod i ni am unrhyw anghenion hygyrchedd neu anghenion eraill sydd gennych chi fel y gallwn wneud y trefniadau angenrheidiol. Er enghraifft, efallai y bydd angen mynediad cadair olwyn, system dolen clyw, neu gyfieithydd iaith neu arwyddion.


Os hoffech chi gymryd rhan yn y gwrandawiad yn Gymraeg, mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni cyn y gwrandawiad er mwyn i ni allu sicrhau bod cyfieithydd Cymraeg ar gael yn ystod y gwrandawiad.





## CYN Y GWRANDAWIAD

Rydyn ni am sicrhau eich bod yn gallu rhoi ch tystiolaeth orau, heb ofn, straen neu bryder. Un ffordd y gallwn wneud hynny yw drwy wneud yn siŵr ein bod yn esbonio r broses yn llawn i chi. Gallwn wneud hynny mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft trwy eich gwahodd i ymweld  lleoliad y gwrandawiad ymlaen llaw. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am roi tystiolaeth, gallwch drafod hyn gyda ch gweithiwr achos. Fodd bynnag, mae n bwysig iawn nad ydych chi’n trafod eich tystiolaeth gydag unrhyw un arall.



## EICH CEFNOGI YN Y GWRANDAWIAD

Yn ogystal ag unrhyw ofynion hygyrchedd sydd gennych chi, mae’n bwysig rhoi gwybod i ni hefyd os oes unrhyw beth arall a allai ei gwneud hi'n anodd i chi roi tystiolaeth, fel iselder neu bryder neu os ydych chi'n cael anhawster mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, fel y gallwn wneud y trefniadau angenrheidiol. Er enghraifft, gallwn sicrhau bod y pwyllgor yn ymwybodol o hyn a'u bod yn gofyn am seibiannau cyson yn ystod eich tystiolaeth.

Mewn achosion sy'n ymwneud â honiadau o ymddygiad rhywiol amhriodol neu, er enghraifft, os ydych chi'n oedrannus neu os oes gennych chi anabledd, gallwn roi gweithdrefnau arbennig ar waith a all eich helpu i roi’ch tystiolaeth yn fwy effeithiol, gan geisio lleihau unrhyw bryder sydd gennych chi. Cyfeirir at y rhain fel 'mesurau arbennig' yn aml a gallant gynnwys rhoi tystiolaeth o du ôl i sgrin neu drwy gyswllt fideo felly ni fyddai'n rhaid i chi fod yn ystafell y gwrandawiad wrth roi’ch tystiolaeth.

## A ALLAF WRTHOD MYND I'R GWRANDAWIAD?

ydyn ni’n gobeithio, gan eich bod wedi cytuno i ddarparu datganiad tyst, y byddwch chi’n barod i fynd ir gwrandawiad hefyd. O bryd iw gilydd, efallai y byddwn yn gofyn ir pwyllgor gyhoeddi gw ŷs tyst. ae hyn yn golygu y gellid dweud wrthych chi fod yn rhaid i chi fynd i wrandawiad i roi tystiolaeth neu gyflwyno dogfennau. Gall hyn ddigwydd am nifer o resymau, er enghraifft efallai na fydd eich cyflogwr yn fodlon rhoi amser i ffwrdd or gwaith i chi fynd ir gwrandawiad. Os cewch eich galw ac nad ydych yn ymddangos, efallai y cewch eich erlyn am gyflawni trosedd o dan y Ddeddf Osteopathiaid.

## PARATOI I FYND I'R GWRANDAWIAD

Cyn i chi fynd i'r gwrandawiad, cofiwch wneud y canlynol:

- gofalwch eich bod wedi darllen eich datganiad ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill yn drylwyr;
- gwiriwch fanylion eich taith yn ofalus a rhowch ddigon o amser i'ch hun gyrraedd lleoliad y gwrandawiad mewn da bryd;
- dewch â'ch sbectol ddarllen (os ydych chi angen un); a
- rhowch wybod i ni os oes unrhyw gymorth ychwanegol y gallech fod ei angen.

Ni **ddylech** drafod yr achos na'ch tystiolaeth gydag unrhyw un heblaw eich gweithiwr achos.





## YN YSTOD Y GWRANDAWIAD

Ar ddiwrnod y gwrandawiad, ar ôl cyrraedd, dylech fynd i ddesg y dderbynfa lle bydd aelod o'n staff yn eich cyfarch cyn mynd â chi i ystafell aros. Mae'n debyg y bydd yn rhaid i chi ddisgwyl cyn rhoi'ch tystiolaeth. Bydd lluniaeth fel coffi, te a dŵr ar gael wrth i chi ddisgwyl.

Os ydych chi'n siarad Cymraeg ac wedi gofyn am ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y gwrandawiad, cewch eich cyflwyno i'r cyfieithydd Cymraeg cyn i'r gwrandawiad ddechrau.

Bydd ein cynrychiolydd cyfreithiol yn cyfarfod â chi ar fore'r gwrandawiad i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi ac i gadarnhau eich bod yn barod i roi'ch tystiolaeth. Os ydych chi'n teimlo bod angen mwy o amser arnoch chi neu os ydych chi eisiau siarad gyda'n cynrychiolydd cyfreithiol cyn dyddiad y gwrandawiad, dywedwch wrth eich gweithiwr achos.

Mae croeso i chi ddod â rhywun gyda chi – ffrind neu berthynas efallai – i'r gwrandawiad i'ch cefnogi. Fodd bynnag, peidiwch â dod â phlant neu anifeiliaid anwes gyda chi. Os nad yw'n bosibl gadael eich plant gyda rhywun, gwnewch yn siŵr eich bod yn dod ag oedolyn arall gyda chi a fydd yn gofalu am y plant tra byddwch chi'n rhoi tystiolaeth.

Weithiau gall achos gael ei ohirio. Mae gohirio yn doriad yn y gwrandawiad cyn iddo orffen. Gallai hyn fod am gyfnod byr tra bod y pwyllgor yn cael cinio neu gallai fod am gyfnod hirach oherwydd bod angen mwy o amser ar y pwyllgor i dderbyn tystiolaeth a gwneud ei benderfyniad. Os yw hyn yn golygu na allwch gwblhau’ch tystiolaeth ar y diwrnod hwnnw, byddwn yn gofyn i chi ddychwelyd ar ddiwrnod gwahanol. Bydd eich gweithiwr achos yn trafod hyn gyda chi.

Mae gwrandawiadau’n cael eu cynnal yn gyhoeddus fel arfer. Mae hyn yn golygu bod aelodau'r wasg a'r cyhoedd yn gallu bod yno. Fodd bynnag, cynhelir gwrandawiadau gerbron y Pwyllgor Iechyd yn breifat.

Ni ddefnyddir enwau tystion yn ystod gwrandawiadau fel arfer. Yn hytrach, cyfeirir atoch chi fel, er enghraifft, claf A.

Fel arfer, dywedir wrthym a fydd aelodau'r cyhoedd neu'r wasg yn y gwrandawiad. Os cawn wybod am hyn ymlaen llaw, byddwn yn eich hysbysu chi am hyn hefyd.

Gwnewch yn siŵr bod eich ff n symudol wedi i ddiffodd cyn i chi fynd i mewn i ystafell y gwrandawiad. i chaniateir camer u, offer recordio t p nac unrhyw ddyfais arall sy n gallu gwneud cofnod parhaol yn ystafell y gwrandawiad.

Pan fydd hi'n amser i chi roi tystiolaeth, bydd aelod o'n staff yn eich tywys chi i ystafell y gwrandawiad ac i'r sedd lle byddwch chi'n rhoi tystiolaeth. Gofynnir i chi dyngu llw yn ôl eich cred grefyddol, neu gadarnhad (sef datganiad difrifol os nad ydych chi am dyngu llw). Yna bydd cadeirydd y pwyllgor yn eich cyflwyno i'r bobl yn ystafell y gwrandawiad, gan gynnwys aelodau'r pwyllgor, yr asesydd cyfreithiol, ein cynrychiolydd cyfreithiol a chynrychiolydd cyfreithiol yr osteopath.

Mae'n rhan o rôl y cadeirydd i sicrhau bod y gwrandawiad yn cael ei reoli'n deg, gan gynnwys peidio â gofyn cwestiynau amhriodol neu elyniaethus i chi.

Bydd y pwyllgor wedi darllen eich datganiad ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill yn yr achos. Efallai na ofynnir i chi ddarllen eich datganiad ond, os gofynnir hynny i chi, bydd ein cynrychiolydd yn trafod hyn gyda chi cyn i chi roi'ch tystiolaeth. Bydd ein cynrychiolydd cyfreithiol yn gofyn i chi gadarnhau'ch llofnod ar eich datganiad a bod cynnwys eich datganiad yn wir. Efallai y bydd ganddyn nhw ragor o gwestiynau i'w gofyn i chi hefyd.

Yna bydd cynrychiolydd cyfreithiol yr osteopath yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i chi. Ar ôl hynny, bydd ein cynrychiolydd cyfreithiol yn cael cyfle arall i ofyn mwy o gwestiynau i chi os oes angen. Pan fydd y ddau gynrychiolydd cyfreithiol wedi gorffen gofyn cwestiynau i chi, yna bydd cyfle i'r pwyllgor ofyn cwestiynau i chi. Yn ystod eich tystiolaeth, efallai y cewch eich cyfeirio at ddogfennau sy'n wedi'u gosod mewn bwndel ar y ddesg dystion a gofyn cwestiynau amdanyn nhw. Mae'n bwysig iawn eich bod yn darllen unrhyw ddogfennau y cyfeirir atyn nhw'n ofalus cyn ateb cwestiynau.

## Cofiwch

- Dylech gymryd eich amser a gwrando'n ofalus i sicrhau eich bod yn deall unrhyw gwestiynau a ofynnir i chi.
- Rhowch eich atebion yn glir ac yn araf.
- Os nad ydych chi'n gwybod yr ateb i gwestiwn neu os nad ydych chi'n deall y cwestiwn, dylech ofyn am eglurhad. Peidiwch â bod ofn gofyn am seibiant byr – rhowch wybod i aelod o staff neu'r cadeirydd os oes angen un arnoch chi.
- Os bydd y pwyllgor yn cael ei ohirio am unrhyw reswm tra'ch bod yn rhoi tystiolaeth, mae'n bwysig iawn nad ydych chi'n trafod eich tystiolaeth gydag unrhyw un, gan gynnwys ein cynrychiolydd cyfreithiol, yn ystod yr egwyl.

## AR ÔL Y GWRANDAWIAD

Bydd y cadeirydd yn cadarnhau gyda chi pryd y byddwch chi wedi gorffen rhoi'ch tystiolaeth. Yna byddwch yn gallu naill ai gadael y gwrandawiad neu aros os yw'n digwydd yn gyhoeddus. Os byddwch chi'n dewis aros, bydd aelod o staff yn dangos i chi ble i eistedd.

Bydd eich gweithiwr achos yn dweud wrthych chi beth yw canlyniad yr achos. Rydyn ni'n cyhoeddi copi o'r penderfyniad ar ein gwefan hefyd.

Bydd eich gweithiwr achos yn ymdrin â'ch hawliad treuliau ac unrhyw gwestiynau sydd gennych chi. Mae hyn yn cynnwys unrhyw dreuliau a gawsoch wrth fynd i'r gwrandawiad, fel cinio neu deithio. Fodd bynnag, nid ydym yn talu am golli cyflog fel arfer.

Rydyn ni wedi ymrwymo i wella ein proses gwrandawiadau. Er mwyn ein helpu gyda hyn, byddem yn ddiolchgar iawn pe baech chi'n llenwi ffurflen adborth tystion. Bydd ein gweithiwr achos yn rhoi'r ffurflen chi ar ôl i chi orffen rhoi'ch tystiolaeth.

Gobeithio y bydd y canllawiau hyn yn fuddiol i chi. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'ch gweithiwr achos.

**regulation@osteopathy.org.uk**
**020 7357 6655 x224**

Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

Osteopathy House • 176 Tower Bridge Road • London SE1 3LU
Ffôn 020 7357 6655 • E-bost: info@osteopathy.org.uk • www.osteopathy.org.uk




www.facebook.com/goscnews

twitter.com/gosc_uk

## Cyfarwyddiadau

Ar Drên: Yr orsaf brif linell agosaf yw London Bridge, ac mae angen cerdded 10–15 munud oddi yno.

Ar y Tube (London Underground): Y gorsafoedd Tube agosaf yw London Bridge (Jubilee Line a Northern Line, cangen Bank), ac mae angen cerdded 10–15 munud oddi yno, a Tower Hill (llinellau District a Circle), ac mae angen cerdded 10–15 munud o'r fan honno.

Ar y Bws: Mae bysiau rhif 188, 78, 42, 381 a RV1 i gyd yn stopio ger Osteopathy House.

Mewn car: Mae gennym gyfleusterau parcio, ond mae lleoedd yn gyfyngedig. Mae meysydd parcio cyhoeddus gerllaw hefyd.

Crystal Mark 21960
Clarity approved by Plain English Campaign

© GOsC 2016